Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ

Hywel

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019

Amser: 08.30 - 08.40

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd) Rebecca Evans AC Darren Millar AC Rhun ap Iorwerth AC Neil Hamilton AC
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Busnes yr Wythnos Hon

Dydd Mawrth

- Gwnaeth y Llywodraeth y newidiadau canlynol i fusnes y Cyfarfod Llawn heddiw, dosbarthwyd copïau caled diwygiedig o 'Fusnes yr Wythnos Hon':

- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Strategaeth Dwristiaeth (45 munud)~~ – Tynnwyd yn ôl
- Bydd **Dirprwy** Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y cyflwyno'r datganiad llafar, 'Prentisiaethau: Buddsoddi Mewn Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' (45 munud)

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o barhau y tu hwnt i 18.05pm.

Dydd Mercher

- Bydd yr holl bleidleisio ac eithrio'r ddadl Cyfnod 3 yn digwydd cyn y ddadl fer.

- Ni fydd egwyl cyn dechrau trafodion Cyfnod 3.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Dosbarthodd y Trefnydd gopi caled diwygiedig o 'Amserlen Busnes y Llywodraeth am Dair Wythnos', a bydd yr holl newidiadau'n cael eu dangos ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 3 Ebrill 2019 –

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

4 Pwyllgorau

4.1 Cais gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i fynd ar ymweliad oddi ar y safle

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais.

Unrhyw Fater Arall

Dyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau

Dywedodd Darren Millar wrth y Rheolwyr Busnes fod Grŵp Ceidwadwyr Cymru bellach am enwebu un o'i Aelodau i swydd Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, yn unol â'r penderfyniad mewn egwyddor gan y Pwyllgor Busnes ar 23 Hydref 2018.

Roedd penderfyniad y mwyafrif o blaid yr ail-ddyrannu – gwrthwynebodd Neil Hamilton.

Bydd cynnig i ailddyrannu Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau i Grŵp Ceidwadwyr Cymru yn cael ei ystyried fel yr eitem olaf o fusnes yn ystod y Cyfarfod Llawn heddiw. Os cytunir, bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar ddechrau Cyfarfod Llawn yfory; cynhelir pleidlais gudd os daw mwy nag un enwebiad i law.